**Prosiect Celf Llys Awelon – Galwad Artistiaid**

**Cefndir y Prosiect**
Mae Llys Awelon, yn Rhuthun, Sir Ddinbych (Llys Awelon, Rhuthun - Grŵp Cynefin (grwpcynefin.org)) yn gynllun tai gofal ychwanegol a sefydlwyd yn 2011 gan Grŵp Cynefin, mewn partneriaeth â Chyngor Sir Ddinbych. Mae'r cynllun yn darparu gwasanaethau cartref, cymorth a gofal i bobl dros 60 oed.

Mae Llys Awelon yn cael ei ailddatblygu'n llwyr i greu cynllun modern, carbon-isel, pwrpasol i ddiwallu anghenion pobl hŷn yn ardal Sir Ddinbych. Bydd 35 o fflatiau ychwanegol yn cael eu hychwanegu at y 21 presennol.

Fel rhan o'r cymal gwerth cymdeithasol sy'n ymgorffori buddion cymunedol, mae Grŵp Cynefin a Read Construction, datblygwr y prosiect, yn ariannu prosiect celf gymunedol.

**Briff Artist**
Rydym yn chwilio am artist o unrhyw ddisgyblaeth i greu darn o waith ar gyfer yr adeilad newydd rhwng Mehefin a Tachwedd 2024, sy'n cwrdd â'r meini prawf canlynol:

- Rhaid i'r artist fod yn lleol (ardal gogledd Cymru) neu fod â chysylltiad cryf â Rhuthun
- Rhaid i'r artist allu siarad Cymraeg i ddarparu sesiynau ymgysylltu dwyieithog
- Y themâu a awgrymir ar gyfer darn celf yw cartref a chymuned, treftadaeth neu natur
- Pontio'r cenedlaethau - gan gynnwys o leiaf pum sesiwn gyda thrigolion Llys Awelon a disgyblion o Ysgol Pen Barras
- Bydd pob math o gelf yn cael ei ystyried ond mae angen iddo fod yn addas i'w arddangos y tu mewn neu du allan yr adeilad terfynol
- Anogir elfen amgylcheddol a chynaliadwy

Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau ar y cyd gan fwy nag un artist.
Cyllideb y prosiect yw £6000 gan gynnwys TAW i gynnwys costau artist, sesiynau ymgysylltu, deunyddiau, costau teithio a'r darn terfynol gan gynnwys ei osod.

**Sut i wneud cais**
I wneud cais cyflwynwch gynnig sy'n cynnwys:

- Datganiad i gefnogi'ch cais o ddim mwy na 750 o eiriau, yn amlinellu eich addasrwydd ar gyfer y rôl a'r dull rydych yn bwriadu ei ddilyn, gan gynnwys profiad blaenorol
- Syniadau cychwynnol ar gyfer y darn celf
- Amserlen arfaethedig ar gyfer cwblhau'r prosiect
- Cyllideb arfaethedig
- O leiaf dair enghraifft o waith blaenorol

**Dyddiad Cau: Dydd Iau 29 Chwefror 2024 12pm (hanner dydd).**
**Dyddiad Cyfweld: Dydd Iau, 14 Mawrth 2024** (Cadwch y dyddiad hwn yn rhydd. Byddwch yn cael gwybod os gwahoddir chi i gyfweliad ddydd Gwener 8 Mawrth 2024).

Dylid anfon cynigion at mentraucymunedol@grwpcynefin.org erbyn y dyddiad cau.

*Mae Grŵp Cynefin yn sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn print bras, braille, sain, hawdd ei ddarllen ac Iaith Arwyddo Prydain. Byddwn hefyd yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd heblaw'r Gymraeg neu'r Saesneg ar gais.*

*Os oes gennych unrhyw anghenion mynediad a'ch bod yn ystyried gwneud cais, gallwn helpu i sicrhau eich bod yn cael eich cefnogi yn ystod y broses ymgeisio. Cysylltwch â ni yar mentraucymunedol@grwpcynefin.org i drafod sut y gallwn ni helpu.*

*Mae Grŵp Cynefin yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.*

**Llys Awelon Art Project – Artist Call**

**Project Background**
Llys Awelon in Rhuthun, Denbighshire (https://www.grwpcynefin.org/en/find-a-home/extra-care-housing/llys-awelon-rhuthun/) is an extra care housing scheme established in 2011 by Grŵp Cynefin, in partnership with Denbighshire County Council. The scheme provides home, support and care services for people over 60.

Llys Awelon is being completely redeveloped to create a modern, low-carbon, purpose-built scheme to meet the needs of older people in the Denbighshire area. An additional 35 flats will be added to the existing 21.

As part of the social value clause which incorporates community benefits, Grŵp Cynefin and Read Construction, the developer of the project, are funding a community art project.

**Artist Brief**
We are looking for an artist of any discipline to create a piece of work for the new building between June and November 2024, who meets the following criteria:

- Artist must be local (north Wales area) or have a strong connection to Ruthin
- Artist must be Welsh speaking to provide bilingual engagement sessions
- Suggested themes for art piece are home and community, heritage, or nature
- Intergenerational - including minimum of five sessions with Llys Awelon residents and pupils from Ysgol Pen Barras primary school
- All types of art will be considered but it needs to be suitable to be exhibited inside or outside the final building
- An environmental and sustainable element is encouraged

We also welcome joint applications from more than one artist.
The budget for the project is £6000 including VAT to include artist's costs, engagement sessions, materials, travel costs and the final piece including its instillation.

**How to apply**
To apply please submit a proposal which includes:

- A supporting statement of no more than 750 words outlining your suitability for the role and the approach you intend to pursue, including previous experience
- Initial ideas for the art piece
- A proposed general timetable for the completion of the project
- Proposed budget
- At least three examples of your previous work

**Closing Date: Thursday 29th February 2024 at 12pm (midday).**
**Interview Date: Thursday 14th March 2024** (Please keep this date free. You will be informed if you have been selected for interview on Friday 8 March 2024).

Proposals should be sent to mentraucymunedol@grwpcynefin.org by the closing date.

*Grŵp Cynefin makes information available in large print, braille, audio, easy read and British Sign Language. We'll also try to provide information in languages other than Welsh or English on request.*

*If you have any access needs and are thinking about making an application, we can help to make sure that you're supported during the application process. Please contact us at mentraucymunedol@grwpcynefin.org to discuss how we can help.*

*Grŵp Cynefin operates an equal opportunities policy.*